

No.

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 31 Hydref, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, J.M. Norman a M.R. Wilkinson

Hefyd yn bresennol: : Mr a Mrs Holland (Ymgeiswyr – Willmore's 1938), Mr R Thomas (Person Arall), Ms G Donovan-Jones (Person Arall), Mr a Mrs Phelps (Personau Eraill), Swyddogion Trwyddedu (Cyngor Bro Morgannwg), Swyddog Cyfreithiol (Cyngor Bro Morgannwg) a Swyddog y Gwasanaethau Democraidd, Craffu a Phwyllgorau (Cyngor Bro Morgannwg).

(a) Cyhoeddiadau -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd P. Drake yn cael ei benodi'n Gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Caniatáu Trwydded Safle – Willmore's 1938, The Former Golf Kiosk, Cliff Parade, Penarth, CF64 5BP –

Croesawodd y cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i wrandawriad yr is-bwyllgor a gwahoddodd bawb i gyflwyno eu hunain.

Er budd y personau eraill a oedd yn bresennol, dywedodd y Swyddog Cyfreithiol hefyd fod y sylwadau a nodir yn ysgrifenedig yn Atodiad D i'r papurau yn cyfeirio yn unig at faterion fel y diffinnir yn adran 18(6) o Ddeddf Trwyddedu 2003, hynny yw "sylwadau sydd ynghylch effaith debygol rhoi'r drwydded mangre ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu:

No.

- Atal trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed"

Yna, gwahoddodd y cadeirydd reolwr y tîm trwyddedu i gyflwyno'r adroddiad i'r is-bwyllgor. Dywedodd mai diben yr adroddiad oedd ystyried cais o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") am roi trwydded mangre yn Willmore's 1938, yr hen Giosg Golf, Cliff Parade, Penarth, CF64 5BP, a gyflwynwyd gan Charlotte Court o Will-Cater Ltd.

Roedd papurau'r adroddiad yn cynnwys y broses ymgeisio, copi o'r ffurflen gais, amodau arfaethedig a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru, a rhestr o sylwadau a dderbyniwyd gan y cyngor.

Derbyniwyd gwybodaeth atodol hefyd, a oedd hefyd wedi cael ei dosbarthu i bob parti. Roedd hyn yn cynnwys ffotograffau o'r lleoliad dan sylw, a gyflwynwyd ar ran cynrychiolydd trigolion, a chyfres o ffotograffau a dolen i adroddiad yn y wasg, a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

Roedd y cais yn gofyn am awdurdodiad ar gyfer y gweithgaredd trwyddedadwy o werthu alcohol drwy fanwerthu. Yr oriau a ganiateir y gwnaed cais amdanynt oedd 10.30am i 10.30pm bob dydd o'r wythnos, ar gyfer yfed ar ac oddi ar y safle, ac ni wnaed unrhyw gais am amseroedd ansafonol y tu allan i'r amseroedd a nodwyd.

Roedd y cais am ganiatâd i ddarparu cerddoriaeth wedi'i recordio hefyd wedi'i gynnwys yn y cais gwreiddiol. Fodd bynnag, o dan Ddeddf Dadreoleiddio 2015, nid oedd y gweithgaredd hwn bellach yn drwyddedadwy, ar yr amod bod y safle wedi'i drwyddedu i werthu alcohol, a bod y gweithgaredd yn digwydd rhwng 8am ac 11pm.

Roedd y cais yn cynnwys amserlen weithredu a oedd yn nodi'r camau yr oedd yr ymgeisydd yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac fe'i nodir ym Mluch M o'r ffurflen gais yn Atodiad A.

Ar 3 Hydref 2022, hysbyswyd yr awdurdod trwyddedu bod nifer o amodau ychwanegol wedi'u cynnig gan Heddlu De Cymru mewn perthynas â'r cais, a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i gynnwys yr amodau hyn yn yr amserlen weithredu. Roedd copi o'r amodau y cytunwyd arnynt wedi'i gynnwys yn Atodiad B i'w ystyried. Gofynnodd rheolwr y tîm trwyddedu i'r is-bwyllgor nodi bod yr amserau ar gyfer gwerthu alcohol yn cael eu cwtogi i 10.30am tan 10.30pm ar ôl dosbarthu'r cais er mwyn ymgynghori arno.

Hysbysebwyd y cais yn unol â'r rheoliadau. O dan Reoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Tystysgrifau Mangre oedd a Mangre oedd Clybiau) 2005, gall awdurdod cyfrifol neu unrhyw berson arall wneud sylwadau perthnasol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniwyd 11 o sylwadau gan bersonau eraill a chafodd y sylwadau perthnasol a oedd yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu eu crynhoi yn Atodiad C.

No.

Daeth y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau i ben ar 3 Hydref 2022. Gan nad oedd yr un o'r sylwadau wedi'i dynnu'n ôl, roedd angen gwrandawriad llawn o'r cais hwn.

Wedi hynny, gwahoddodd y cadeirydd Mr a Mrs Holland (yr ymgeiswyr) i gyflwyno eu hachos a dod â thystion gerbron os oedd angen. Cadarnhaodd yr ymgeisydd fod y manylion a gyflwynwyd ynghylch ei gais hyd at y pwynt hwn yn y gwrandawriad yn gywir. Dywedodd, fodd bynnag, mai ei fwriad oedd peidio â chael y safle ar agor drwy gydol yr oriau trwyddedig y gwnaed cais amdanynt, saith diwrnod yr wythnos, ond yn hytrach i gau am 6pm yn y gaeaf ac 8pm yn yr haf. Diben yr oriau diweddarach y gwnaed cais amdanynt yn wreiddiol oedd hwyluso cynnal digwyddiadau heb yr angen i wneud cais ar wahân am Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro ar gyfer digwyddiadau o'r fath.

Gan nad oedd gan yr ymgeisydd unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y pwynt hwn, gwahoddodd y cadeirydd gwestiynau i'r ymgeisydd o'r is-bwyllgor.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Norman, dywedodd yr ymgeiswyr mai'r digwyddiadau a fwriadwyd oedd digwyddiadau cymunedol yn defnyddio'r ardal werdd, gan gynnwys digwyddiad rhedeg Nadolig i deuluoedd, digwyddiad ceir clasurol a choffi, triathlon yn ystod y dydd, a dwy wyl fwyd a phicnic ar y cyd â'r cwmni rheoli digwyddiadau Production 78. Eu nod oedd y byddai'r drwydded yn eu galluogi i gystadlu â safleoedd cyfagos a oedd ag oriau trwyddedig o 10.30am i 10.30pm ar hyn o bryd.

Eglurodd yr ymgeiswyr nad oeddent yn rhagweld y byddai digwyddiadau'n gorffen yn hwyr a'u bod yn deall y dylent ystyried y trigolion cyfagos, a'r pryderon a allai fod ganddynt, a'u bod yn croesawu eu sylwadau. Dywedasant eu bod wedi bod yn drwyddedigion ar safle arall am bum mlynedd heb gwyn a'u bod am ddenu teuluoedd i'w busnes, yn hytrach na'r math o fasnach a allai achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bwriad y drwydded oddi ar y safle oedd cynnig bwyd o safon uchel a photeli o win i gwsmeriaid fynd adref gyda nhw, ac nid gweini alcohol i ardal y maes parcio nac i bobl oedd yn mynd heibio yn gyffredinol. Roedd ganddynt bolisi gwirio oedran Herio 25 ar waith fel y cytunwyd gyda Heddlu De Cymru.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Wilkinson, cadarnhaodd yr ymgeiswyr eu bod eisoes wedi cael caniatâd i gynnal eu digwyddiadau arfaethedig.

Yn dilyn hynny, holodd Mr Thomas am ganiatâd cynllunio'r ymgeiswyr, a oedd yn caniatáu gwerthu alcohol ar y safle yn unig, ac oriau agor byrrach. Yn hyn o beth, cadarnhaodd y Swyddog Cyfreithiol fod cynllunio a thrwyddedu yn ddwy gyfundrefn ar wahân a oedd yn gweithredu'n annibynnol wrth ei gilydd. Pe na bai'r ddau yn cydymffurfio â'i gilydd, byddai angen cysoni hyn, gan y gallai troseddau ddigwydd a chael eu gorfodi o dan y rheoliadau perthnasol, ond nid oedd yn bosibl gwrthod trwydded ar sail caniatâd cynllunio.

Gan fod amodau a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru a llai o oriau o fasnach drwyddedig eisoes wedi'u cytuno cyn y cyfarfod, nid oedd angen unrhyw sylwadau

gan Heddlu De Cymru fel yr awdurdod cyfrifol, ac yna gwahoddodd y cadeirydd y personau eraill i gyflwyno eu hachosion.

Cyflwynodd Mr Thomas a Mrs Donovan Jones wrthwynebiadau'r trigolion i'r drwydded arfaethedig, a rhai camau gweithredu arfaethedig, y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Roedd y cais am safle cyfyngedig iawn rhwng cartrefi, cartref nyrsio a maes chwarae i blant ifanc.
- Roedd ffotograffau a gyflwynwyd ganddynt yn dangos pa mor agos oedd y safle i'r maes chwarae a'r llwybr cyhoeddus, y diffyg seddi wedi'u gorchuddio a manau dan do sydd ar gael, a'r ffaith nad oedd y maes parcio wedi'i oleuo gyda'r nos.
- Yn groes i adroddiad yr heddlu, nid oedd y cais am gaffi newydd ar dir maes carafanau a gweryslla.
- Roeddent wedi dweud nad oedd hysbysiad y cais wedi'i arddangos yn gywir yn unol â'r rheoliadau trwyddedu ond yn derbyn yr adborth dilynol bod yr hysbysiad wedi'i arddangos yn gywir.
- Roedd defnydd yr eiddo wedi'i gyfyngu i gaffi ar gyfer gwerthu a bwyta bwyd neu ddiod ar y safle rhwng 9am a 6pm o dan ganiatâd cynllunio i ddiogelu mwynderau'r meddianwyr cyfagos. Fel amcan trwyddedu, byddai 'atal niwsans cyhoeddus' hefyd yn gofyn am gyfyngiad o'r fath.
- Nid oedd y safle cyfagos yn darparu cymhariaeth ddefnyddiol gan fod ganddo ofod dan do sylweddol iawn ac ychydig iawn o le yn yr awyr agored, i gyd wedi'u cynnwys o fewn ei dir ei hun.
- Roedd problemau ar hyn o bryd gyda'r defnydd o alcohol a chyffuriau yn y maes parcio ac o'i amgylch. Yn eu barn nhw, byddai caniatáu trwydded all-drwydded yn groes i atal trosedd ac anhrefn, a oedd yn fater allweddol ac yn amcan trwyddedu.
- Y risg o wydr wedi torri a sbwriel cyffredinol yn yr ardal ar ben y clogwyni.

Dywedodd y personau eraill fod amod arfaethedig yr heddlu, sef ni ddylid mynd â chynwysyddion alcohol agored i ffwrdd o'r eiddo, ac eithrio yn eu manau awyr agored rheoledig, yn codi'r materion a ganlyn: nid oedd y caniatâd cynllunio yn caniatáu i fwyd nac alcohol gael eu cymryd oddi ar y safle; yr unig ardal awyr agored a reolir gan y safle oedd y man agored yn y cefn a'r hen loches; ac roedd geiriad yr amod yn agored i gamddefnydd posibl, fel y gwelwyd mewn safleoedd eraill. Awgrymwyd y gallai'r term 'cynwysyddion gwreiddiol heb eu hagog' fod yn fwy effeithiol mewn unrhyw amod tebyg ar y drwydded hon.

Gofynnodd y personau eraill a oedd yn bresennol hefyd i'r canlynol gael eu hystyried gan yr is-bwyllgor, pe byddai'r drwydded yn cael ei chaniatáu:

- Gwrthod all-drwydded
- A/neu fod unrhyw all-drwydded yn amodol ar yr amodau canlynol: oriau cyfyngedig i gau am 6pm; alcohol i'w yfed ar y safle gan gwsmeriaid sy'n eistedd wrth fyrddau yn unig; bod y safle yn cael ei gyfyngu i gaffi neu sefydliad a arweinir gan fwyd; y dylai deiliad y drwydded ddarparu biniau sbwriel ac ailgylchu ac annog eu defnyddio; bod alcohol yn cael ei weini

No.

mewn cynwysyddion plastig neu bolycarbonad; ac na ddylid cael gwared ar wydr a gwastraff arall yn yr awyr agored na'u symud o'r safle rhwng 7pm ac 8am.

Cadarnhaodd y Swyddog Cyfreithiol nad oedd defnyddio cerddoriaeth wedi'i recordio yn weithgaredd trwyddedadwy ac felly nid oedd yn fater y gallai'r is-bwyllgor ei ystyried. Eglurwyd hefyd y gallai'r cyngor gyhoeddi Hysbysiad Gwarchod y Gymuned yn gwahardd yfed alcohol mewn man cyhoeddus, megis Ynys y Barri, o dan ddeddfwriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond na fyddai mangreoedd trwyddedig yn yr ardal yn cael eu heffeithio gan orchymyn o'r fath.

Dywedodd Mr Thomas y byddai'n dosbarthu ei sylwadau ysgrifenedig drwy'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu pe bai angen. Dywedodd y Cyngorydd Wilkinson wedyn y byddai holl wrthwynebiadau ac awgrymiadau'r personau eraill yn cael eu nodi a'u cymryd i ystyriaeth.

Yna, gwahoddodd y Swyddog Cyfreithiol yr ymgeiswyr i ymateb i Mr Thomas ac amodau arfaethedig y drwydded. Ailadroddodd yr ymgeiswyr fod y siop all-drwydded wedi'i bwriadu ar gyfer bwyd tecawê a gwin i gwsmeriaid eu bwyta a'u hyfed gartref ac nid ar y safle nac yn yr ardaloedd cyfagos. Gwnaethant hefyd esbonio eu hymatebion pellach, y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Cytunwyd eisoes ar amod yr heddlu ar gyfer defnyddio cynwysyddion wedi'u selio ar gyfer gwerthu alcohol all-drwydded.
- Byddai alcohol all-drwydded a werthir yn ystod y digwyddiadau ochr yn ochr â'r hyn a werthwyd eisoes o eiddo cyfagos.
- Roedd Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro ar wahân yn ddrytach i'w busnes ac yn cymryd mwy o amser i'r cyngor na thrwydded mangre.
- Byddai oriau cyfyngedig, gyda chyrrffyw o 6pm, yn cyfyngu ar eu gallu i gystadlu ag eiddo cyfagos, a oedd â thrwyddedau diweddarach.
- Byddai alcohol all-drwydded a werthir yn ystod digwyddiadau ochr yn ochr â'r hyn a werthwyd eisoes o eiddo cyfagos.
- Roedd eisoes yn fwriad ganddynt i weini alcohol i gwsmeriaid a oedd yn eistedd wrth fyrddau ar y safle.
- Ar hyn o bryd, roedd gwerthiant alcohol yn darparu tua 20 y cant o'u refeniw, ac felly roedd y busnes yn cael ei arwain gan fwyd.
- Roeddent eisoes wedi rhoi'r darpariaethau y gofynnwyd amdanynt ar gyfer sbwriel ac ailgylchu ar waith.
- Roedd ganddynt bolisi di-blastig ac roedd yn well ganddynt wydr oherwydd ei fanteision amgylcheddol ond gallent edrych ar ddewisiadau plastig neu gyfansawdd eraill y gellir eu hailddefnyddio.

Yn dilyn ymholiad gan y Cyngorydd Norman, cadarnhaodd yr ymgeiswyr eu bod yn gwerthu bwyd poeth, ac er bod cwsmeriaid yn gallu mynd â bwyd i'w fwyta yn rhywle arall, roedd y rhan fwyaf o'r bwyd yr oeddent yn ei werthu yn cael ei fwyta yn eu heiddo. Gwnaethon nhw hefyd gadarnhau, er eu bod yn berchen ar y man cysgodi, ei fod ar gael at ddefnydd eraill, nid yn unig eu cwsmeriaid.

Wedyn ailadroddodd y personau eraill a oedd yn bresennol y byddai'n well i'r ymgeiswyr wneud cais am Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro unigol mewn

No.

perthynas â'r digwyddiadau arfaethedig yn hytrach na rhoi trwydded mangre gyffredinol. Codwyd pryderon hefyd am y diffyg rheolaeth a oedd yn bosibl dros gwsmeriaid wrth werthu alcohol i'w yfed mewn mannau eraill.

Ymatebodd yr ymgeiswyr drwy bwysleisio'r pwyntiau nad oedd ganddynt unrhyw fwriad i werthu alcohol yn anghyfrifol, a bod eu digwyddiadau wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd teuluol. Ychwanegon nhw fod yr heddlu wedi canfod bod gosod teledu cylch cyfyng a goleuadau yn atal trosedd, yn enwedig yn y maes parcio, ac yn ddefnyddiol fel ffynhonnell gwybodaeth.

Ychwanegodd y Swyddog Cyfreithiol fod Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro yn gyfyngedig o ran nifer yr hysbysiadau y gallai ymgeisydd eu cael, nifer y bobl y gellid bod yn bresennol, a hefyd hyd digwyddiad, yn ogystal â gofyn am gais ar wahân ar gyfer pob digwyddiad. Dywedodd ei bod yn gyffredin i drwydded mangre gael ei rhoi, a bod hyn yn aml am gyfnod hwy nag y byddai'r safle'n gweithredu mewn gwirionedd, ond yn cynnig y potensial ar gyfer hyblygrwydd.

Dywedodd y Cynghorydd Wilkinson mai mater i'r heddlu yn hytrach na mater trwyddedu oedd troseddau a ddigwyddai yn y maes parcio, ac yn un oedd y tu allan i gylch gorchwyl yr is-bwyllgor.

Amlinellodd Mr a Mrs Phelps, fel y personau eraill a oedd yn bresennol, eu gwrthwynebiadau i roi'r drwydded, y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- byddai cerddoriaeth a chwaraeir ar yr amseroedd agor arfaethedig yn amharu gormod ar fywydau trigolion;
- roedd trigolion o'r farn eu bod wedi colli amwynder y lloches gyhoeddus ers i'r eiddo gymryd perchnogaeth;
- roedd rhoi trwydded mangre gyffredinol ar gyfer yr oriau a gynigiwyd yn annerbyniol mor agos at faes chwarae, a byddai yfed alcohol yn atal teuluoedd rhag ymweld ag ef;
- roedd trwydded mangre yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd o ddefnyddiau eraill o'r eiddo ar ben y rhai a fwriadwyd gan yr ymgeiswyr ar hyn o bryd;
- y risg o wydr wedi torri a sbwriel cyffredinol yn yr ardal;
- y risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal.

Ychwanegodd Mrs Phelps fod yr heddlu wedi ymchwilio i gamddefnyddio cyffuriau yn yr ardal ac eglurodd fod trosedd o'r fath yn ymwneud â'r toiledau cyhoeddus cyfagos ac y byddai cynnig i'r rhain aros ar agor ar ôl 6pm, yn eu barn nhw, yn ychwanegu at y broblem.

Gan gyfeirio at wrthwynebiad y personau eraill ynghylch y posibilrwydd ar gyfer newid gweithgareddau, dywedodd y Swyddog Cyfreithiol y gellid adolygu trwydded a roddwyd yn ddiweddarach, pe na bai safle'n gweithredu yn unol â sut y gwnaed y cais am drwydded, neu pe byddai amcanion y drwydded yn cael eu torri.

Ymatebodd yr ymgeiswyr hefyd i wrthwynebiadau'r personau eraill a oedd yn bresennol, gan ddweud eu bod, ar hyn o bryd, ond yn chwarae cerddoriaeth amgylchynol ar lefelau isel o flaen y lloches, a dim ond yn agos at y lloches y

No.

gellid ei chlywed. Ychwanegwyd bod cefn yr adeilad yn ofod cymunedol, ac nid oedd unrhyw seinyddion yn cyflenwi cerddoriaeth yn yr ardal hon.

Yna, gwahoddodd y cadeirydd yr holl bartïon i grynhoi eu sylwadau neu i wneud unrhyw bwyntiau ychwanegol, a gwnaeth Mr Phelps ychwanegu ei fod yn cytuno â'r amodau a awgrymwyd ar gyfer y drwydded gan Mr Thomas.

Yna, gwnaeth yr ymgeiswyr grynhoi eu sylwadau fel a ganlyn:

- Roeddent yn gweithredu busnes teuluol, dan arweiniad y gymuned, a oedd yn cyflogi chwech o bobl yn yr ardal;
- Eu bwriad oedd aros o fewn yr amseroedd gweithredu a drafodwyd;
- Nid oedd ganddynt unrhyw fwriad i chwarae cerddoriaeth uchel ar y safle.

Heb unrhyw bwyntiau pellach na chwestiynau egluro gan yr is-bwyllgor, amlinellodd y Swyddog Cyfreithiol y drefn a fyddai'n cael ei dilyn wedyn. Byddai'r Swyddog Cyfreithiol yn rhoi unrhyw gyngor cyfreithiol angenrheidiol ar bwyntiau cyfreithiol i'r is-bwyllgor yn ystod trafodaeth breifat. Byddai'r penderfyniad yn cael ei ddarparu'n ysgrifenedig i bob parti o fewn saith diwrnod. Yn dilyn hyn, datgysylltodd yr ymgeiswyr, y Swyddog Trwyddedu, a'r personau eraill a oedd yn bresennol â'r gwrandawriad fel y cadarnhawyd gan y Swyddog Gwasanaethau Democraataidd a Chraffu, a bu'r Is-bwyllgor Trwyddedu yn trafod y cais yn breifat.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i amodau wedi'u haddasu sy'n gyson â'r atodlen weithredu mewn modd sy'n cael ei ystyried yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Rhesymau dros y penderfyniad

Mae'r amodau hynny i gynnwys y canlynol:

Yr amodau fel yr amlinellwyd yn y sylwadau gan Heddlu De Cymru ar 30 Medi 2022.

Roedd yr Is-Bwyllgor yn ymwybodol mai dim ond os oedden nhw'n gymesur ac yn angenrheidiol y dylid rhoi amodau ar drwydded. O ran yr amodau a gynigiwyd gan Mr Thomas, ni chlywodd yr Is-bwyllgor unrhyw dystiolaeth o sŵn yn gysylltiedig â'r amod i waredu gwastraff, gan gynnwys poteli, ar adegau oedd wedi achosi niwsans. Mewn gwirionedd, clywodd yr Is-Bwyllgor dystiolaeth o drosglwyddo gwastraff am 11.00am yn unig, yn unol â'r gofynion. Unwaith eto, nid oedd dystiolaeth ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer sut y byddai alcohol yn cael ei yfed ar y safle yn awgrymu bod angen unrhyw amodau ychwanegol; er enghraifft, byddai alcohol yn cael ei yfed wrth fwrdd beth bynnag. Roedd yr Is-bwyllgor yn ymwybodol o effaith amgylcheddol plastig amlbro ar gyfer gwydrai yfed a byddai'n annog yr Ymgeiswyr i archwilio'r defnydd o ddeunydd cyfansawdd a/neu blastig y gellir ei aildefnyddio fel rhan o'u rheolaeth o'r safle, pan fo angen.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yna faterion yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn a oedd wedi'u cyflwyno gan y Personau Eraill, er yr oedd yn ymddangos bod y rhain yn barhaus ac nid yn gysylltiedig â'r gweithgaredd trwyddedadwy a

No.

gynigir. Ymhellach, nodwyd nad oedd Heddlu De Cymru, yr awdurdod cyfrifol am drosedd ac anrhefn, wedi gwrthwynebu'r drwydded a bod eu hamodau arfaethedig wedi cael eu cytuno. Derbyniwyd y byddai amodau'r drwydded ychwanegol sy'n ymwneud â gweithredu teledu cylch cyfyng yn debygol o weithredu fel rhwystr ar y safle ar gyfer trosedd ac anrhefn a bod yr Ymgeiswyr wedi ymgysylltu â'r Heddlu fel a phan ofynnwyd iddo ac fel rhan o'r broses trwyddedu.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y safle trwyddedig cyfagos yn gweithredu gyda thrwydded debyg a doedd dim materion wedi codi yn sgil y drwydded honno. Nid oedd unrhyw broblemau sbwriel gyda'r safle na sŵn o wagio poteli ac ati. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â defnyddio llestri gwydr ar y safle.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais wedi'i wneud er mwyn gwerthu alcohol ochr yn ochr â busnes presennol a oedd yn gweithredu yn bennaf fel sefydliad bwyd ac na fyddai'r safle'n gweithredu fel bar nac yn gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle yn yr ystyr draddodiadol.

Wrth ddod i'w benderfyniad roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb oedd wedi gwneud sylwadau ysgrifenedig a llafar ac wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion Trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad Polisi Trwyddedu y Cyngor.

Mae gan yr Ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Rhaid i'r Apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig ac o fewn 21 diwrnod i Lys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg. Os bydd yr Ymgeisydd yn ansicr ynghylch ei hawlau cyfreithiol a'i gyfrifoldebau, dylai geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.